# 29. SIMON, MAB JONA

**Darllen:** Ioan 21: 15-21

Ar ôl iddynt fwyta, gofynnodd Iesu i Simon Pedr fynd gydag ef am dro ar lan y môr, mwy neu lai yn yr unfan y bu iddynt gyfarfod am y tro cyntaf tair blynedd ynghynt. Bu Pedr yn hiraethu am y cyfle hwn ac yn dychryn rhagddo'r un pryd. Dyma'r tro cyntaf i'r ddau fod yng nghwmni ei gilydd ers iddynt edrych i lygaid ei gilydd ar ôl i Simon wadu ei Arglwydd deirgwaith.

'*Simon, Fab Jona'*, medd Iesu, '*Mr Simon ap Ioan'* neu '*Mr*. Simon Jones'! Mor ffurfiol! Nid Simon! Nid Pedr, y llysenw a roddodd yr Arglwydd ei hun iddo adeg eu cyfarfyddiad cyntaf. Aethant yn ôl dair blynedd, fel petai, i ddechrau eu perthynas. Dyma'r Arglwydd yn ei gyfarch megis am y tro cyntaf a chyn iddo gael amser i ymateb fe daflwyd cwestiwn ato:

'*Wyt ti'n fy ngharu yn fwy na'r rhai hyn?*' Gall y cwestiwn olygu un o ddau beth; yn gyntaf, '*Wyt ti'n fy ngharu yn fwy na phopeth arall'* – y môr, y pysgota, a'r hen ardal?[19] '*Wyt ti? Rhedaist yn ôl at yr hen gynefin a'r hen ffordd o fyw yn ddigon cyflym. Beth am dy ffrindiau a'th dylwyth, dy gartref, dy fad, y rhwydau a'r môr? Buost neithiwr yn ôl ar yr hen lwybrau; beth am heddiw? Rhaid i ti ddewis rhwng pysgota ar fôr Galilea a dod ar fy ffordd i!'* Neu, yn ail: '*Wyt ti'n fy ngharu yn fwy na'r lleill?'*[20] Hynny yw, '*yn fwy na'r lleill ar y bad gyda ti neithiwr neu gyda ti yn yr Oruwch Ystafell? Ar y noson olaf honno y tyngaist lw yng nghlyw'r lleill, 'Er iddynt gwympo pob un, ni wnaf i? Dyna beth a ddywedaist Mr Simon Jones; ai dyna'r gwirionedd?'* Diddorol yw sylwi bod Pedr wrth iddo ateb yn newid y ferf, gan ddefnyddio un gwahanol. Y ferf 'caru' oedd gan Iesu; wrth iddo ateb, soniodd Pedr am fod 'yn ffrind'. '*Ydwyf, Arglwydd, gwyddost fy mod yn ffrind i ti.*' '*Portha fy uyn'*, medd Iesu, gan ddilyn pob ateb o eiddo Pedr gyda chyfrifoldeb newydd iddo.

Daeth yr ail gwestiwn ar unwaith: '*Simon, mab Ioan, wyt ti'n fy ngharu?*' Cwestiwn syml y tro hwn, heb unrhyw gymariaethau! Atebodd Simon gyda'r un frawddeg ag o'r blaen: '*Ydwyf, Arglwydd, gwyddost fy mod yn gyfaill i ti*.' '*Bugeilia fy nefaid'*, medd Iesu.

Gwell aros am funud gyda geiriau'r cwestiynau a'r atebion. Gair Groeg arbennig iawn sydd gan Ioan yng nghwestiynau Iesu, sef '*Agapas me'*. '*Agape'* yw gair y Testament Newydd sy'n disgrifio'r cariad sydd gan Dduw tuag at ei blant: '*Felly y carodd Duw y byd fel y rhoddodd*

*efe ei unig-anedig Fab…'* (Ioan 3: 16). '*Agape!*'- caru ei fyd y mae Duw, nid ymserchu ynddo. Yn ôl y Llythyr at yr Effesiaid 5: 25: '*carodd Crist yntau yr eglwys a'i roi ei hun drosti.*' Cariad Duw yng Nghrist ar y Groes sydd yma yn y gair '*Agape'*. Yn yr Oruwch-Ystafell y noson olaf honno, wedi iddo olchi eu traed, dywedodd wrthynt: *'Yr wyf wedi rhoi i chwi esiampl… carwch eich gilydd fel y cerais i chwi.*' Am y cariad hwn y sonia Crist wrth Simon Pedr. '*Wyt ti'n fy ngharu?*' Nid *Agapein* sydd yn ateb Simon Pedr ond *Philein:* '*Gwyddost fy mod yn ffrind i ti.*' Yn ôl rhai ysgolheigion, nid oes yna wahaniaeth rhwng y naill ferf a'r llall. Ond dywed synnwyr cyffredin nad oes neb yn newid y ferf a ddefnyddir mewn cwestiwn wrth roi ateb ond pan deimla'r atebydd na all roi ateb uniongyrchol. Pwy, tybed, newidiodd y ferf yma, Simon Pedr neu Ioan? Onid Simon Pedr ei hun yn ei siom a'i gywilydd? '*Bugeilia fy nefaid'*, medd Iesu.

Cyn iddo gael cyfle i anadlu, daeth trydydd cwestiwn ato fel saeth, cwestiwn â'r ferf wedi newid! Yn ôl yr iaith Roeg wreiddiol, trydydd cwestiwn Crist yw: '*Simon mab Jona, wyt ti'n ffrind i mi? Ai dyna'r gwir, Simon? A fedraf ddibynnu arnat? A fedraf ymddiried i ti y cyfan yr wyf am ei roi yn dy ddwylo di? - ac, yn arbennig, a ofali di am uyn a defaid fy mhraidd?'* Yn ôl Llyfr y Diarhebion 17: 17: '*Y mae cyfaill yn gyfaill bob amser… Cydymaith a gâr bob amser*.' Gorfoda Iesu Simon Pedr i edrych i mewn i'w galon ei hun. '*Ymffrostiaist yn y ffaith dy fod yn ffrind i mi mor aml â'm gadael i lawr wedyn, a wyt yn dweud yr hyn sydd ar dy galon y tro hwn?'*

Druan â Simon Pedr! Roedd y croesholi yma'n drech nag ef a'r poen yn ei galon bron a bod yn ormod iddo. Ond poen arbennig oedd hwn – y boen o ail-agor clwyf er mwyn ei lanhau, neu hyd yn oed y broses ingol o enedigaeth. Onid dyna oedd yn digwydd ar lan y môr, sef y proses o lanhau, iachau, adfer, adnewyddu? Dyma Simon Pedr yn cael ei eni drachefn neu ei atgyfodi i fywyd newydd, bywyd tragwyddol. Roedd y cyfan yn ormod i'r disgybl, druan. '*Arglwydd, fe wyddost bob peth. Fe wyddost fy mod yn ffrind i ti.*' Mor wahanol yw'r Pedr newydd i'r hen Simon. Gadawodd yr ymffrostio a'r brolian wrth y groes, gan ddechrau dysgu ymddiried yng Nghrist. '*Dof yn waglaw at dy groes, glynaf wrthi drwy fy oes.*'[21] '*Portha fy uyn'*, medd Iesu.

Nid ail-adrodd geiriau tair blynedd yn ôl wnaeth Iesu y tro hwn ond rhoi cyfres o orchmynion newydd. Rhaid i Pedr a'r lleill gefnu'n llwyr ar yr hen fywyd a newid cyfeiriad. Nid galwad i fod yn bysgotwr hyd yn oed sydd ganddo yn awr ond gorchymyn i fod yn fugail praidd

Crist. Fel y bu'n rhaid i'r Crist fod yn ddyn, rhaid i'r Saer fod yn fugail, rhaid hefyd i'r pysgotwr fod yn fugail. Ni atebodd Pedr. Beth aeth trwy ei feddwl, tybed? Beth oedd ymateb y pysgotwyr eraill wrth iddynt glywed am eu galwedigaeth newydd? Wedi'r cyfan, roedd gan bysgotwyr statws mewn cymdeithas, yn arbennig y rhai fel Simon a'r lleill oedd yn berchen ar eu cychod eu hunain. Ond bugeiliaid! - pobl ar ymylon cymdeithas oedd y rhain, pobl oedd yn torri'r Saboth wrth iddynt ofalu am ddefaid pobl eraill; dynion yr anialwch, yn methu ymolchi yn ôl defodau'r Gyfraith neu lendid syml, heb unrhyw statws nac urddas yng ngolwg cymdeithas. Dim gair o ateb ganddo ond fe ddengys hanes iddo ufuddhau, fel y lleill. Tybed a fyddai Simon Pedr wedi cytuno tair blynedd ynghynt? A oedd rhaid iddo fynd drwy brofiadau'r tair blynedd yn ei gwmni cyn iddo fedru ufuddhau? Nid trawsnewid unigryw sydd yma. Disgwylia'r Bugail Mawr i holl uyn a defaid ei braidd gael eu gweddnewid i fod yn fugeiliaid, i gyd-fugeilio ei braidd gydag ef. Dywedodd hen fugail o Sir Faesyfed ar y radio flynyddoedd lawer yn ôl iddo feddwl bod yn '*rhaid i bob bugail fod yn hanner-oen.*' Yr hyn a wnaeth Bugail Mawr y Defaid oedd byw a marw fel Oen Duw. Yn wyneb hyn, beth yw 'offeiriadaeth yr holl saint'? Onid cymdeithas gydweithredol yw'r Eglwys, yn derbyn patrwm ac arweiniad Iesu Grist a nerth yr Ysbryd Glân, gyda phob aelod a'r holl aelodaeth yn gofalu am bob chwaer a brawd yn y Ffydd, gan weithredu hefyd fel asiant cariad gwaredigol Duw trwy'r byd i gyd. Beth yw prif angen ein heglwysi heddiw? Onid gwario mwy o amser yng nghwmni'r Bugail Mawr er mwyn ei adnabod yn well ac ymddiried mwy ynddo?

Aeth Crist ymlaen i ddweud: '*Pan oeddit yn ifanc…'* - *pan elwaist ti gyntaf yr oeddet yn gryf, yn llawn egni a brwdfrydedd, ac yn annibynnol iawn. Rwyf wedi dy alw i'm cynrychioli fel bugail ymhlith defaid ac uyn fy mhraidd, ac i geisio a chadw fy nefaid sydd ar grwydr. Wrth i ti weithio drosof, dysgaf di beth i'w ddweud a sut i'w ddweud a gwneud a dioddef gyda mi a throsof fi. Bydd rhaid i ti golli dy annibyniaeth i ennill rhyddid. A phan ei di i Rufain fe gei di dy glymu mewn cadwyni a'th arwain ymlaen i farw drosof fi a'r praidd. Dyna dy fywyd newydd mewn cymdeithas â mi - cydweithio, cyd-ddioddef, cyd-farw a chyd-atgyfodi. Os wyt ti'n fy ngwir garu, tyrd gyda mi i lafurio dros fy Nhad a'i deyrnas. Ni chei gyflog yn y gwaith ond cyn i ti fynd allan i'w gyflawni cei rodd amhrisiadwy ganddo i'w ddefnyddio*.' "*Rhodd Duw yw bywyd tragwyddol*," medd Paul (Rhufeiniaid 6: 23). Roedd Pedr i ddechrau

byw'r bywyd tragwyddol hwn yn awr, gan barhau i wneud hynny ar ôl ei farw a'i atgyfodi yng Nghrist.

"*Canlyn fi*", medd Iesu. A'r un alwad sydd ganddo i bawb sy'n dod ato, i fynd yn ei enw ac yn ei gwmni, i fod yn apostol. Ni fydd manylion bywyd pob un yn debyg, ond yr un yw ei alwad i bawb, galwad sy'n deillio o gariad Duw yng Nghrist ein Harglwydd croeshoeliedig ac atgyfodedig - Iesu sy'n gwybod popeth amdanom ac yn ein caru. Cawn ein galw i dderbyn faddeuant Duw ganddo. Wrth i ni fynd yn ei gwmni fe gawn ei adnabod yn well a derbyn ei ras, sef cariad at y rhai nad ydynt yn ei haeddu, gan fyw fel plant i Dduw gyda Mab y Dyn a ddaeth ar agwedd gwas i fyw a marw trosom ni a'r holl fyd, a'n galw i fod yn gyd-weision ag ef yng ngwaith ei Dad.

Ond, hyd yn oed mewn munudau mor ddwys a sanctaidd, yr oedd hi'n anodd i Simon Pedr ganolbwyntio ar eiriau'r Arglwydd. Wrth iddo droi ei ben fe welodd Ioan '*y disgybl yr oedd Iesu yn ei garu yn eu canlyn.*' Ar unwaith, Ioan oedd yn dal ei sylw ef! A bu'n rhaid iddo holi amdano: '*Arglwydd, beth am hwn?*' 'Nid dy fusnes di yw Ioan', oedd yr ateb. 'Dy waith di yw dod ar fy ôl i. *Canlyn fi!*' Braint Simon Pedr a phob Cristion arall yw "*cymryd arno iau Crist*", medd John Wesley. Mae hyn yn golygu ein bod yn fodlon iddo ef bennu ein lle a'n gwaith, ac mai ef ei hun fydd y wobr.

**Gweddi:**
*Nid wyf mwyach yn eiddo i mi fy hun, ond i ti.*
*Dyro imi'r dasg a fynni,*
*gosod fi gyda'r neb a ewyllysi;*
*dod fi i weithio, dod fi i ddioddef;*
*gosod fi mewn gwasanaeth drosot neu tro fi heibio er dy fwyn;*
*dyrchafer fi neu darostynger fi drosot;*
*gwna fi'n gyfoethog, gwna fi'n dlawd;*
*dyro i mi bopeth, gad fi heb ddim;*
*yn ddiatal ac o'r galon yr wyf yn ildio popeth oll*
*i'th ewyllys a'th orchymyn di.*
*Ac yn awr, gogoneddus a bendigedig Dduw,*
*Dad, Mab ac Ysbryd Glân,*
*yr wyt ti'n eiddof fi a minnau'n eiddot ti.*
*Bydded felly.*
*A bydded i'r cyfamod a wnaed yn awr ar y ddaear*
*fod wedi ei gadarnhau yn y nefoedd. Amen.*
*(O Wasanaeth Cyfamod John Wesley)*